# DATGANIAD NEWYDDION

Cyhoeddwyd gan y
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE

Ffôn 02920 395031
Ffacs 02920 395250

Dyddiad Tachwedd 2010

**ARGYMHELLION TERFYNOL YNGHYLCH YR ARDALOEDD A GYNHWYSIR YN ETHOLAETHAU BRECON AND RADNORSHIRE A MERTHYR TYDFIL AND RHYMNEY**

**Nid yw'r Comisiwn yn bwriadu gwneud unrhyw newid i'w argymhellion dros dro ar gyfer etholaethau Brecon and Radnorshire a Merthyr Tydfil and Rhymney.**

1. Cyhoeddasom ein hargymhellion dros dro ar 1 Mehefin 2010 a chyhoeddwyd hysbysiadau o'r rhain mewn papurau lleol yn Gymraeg ac yn Saesneg, a oedd â chylchrediad yn yr etholaethau yr effeithiwyd arnynt, gan wahodd cynrychiolaethau o fewn y cyfnod statudol, sef un mis calendr. Roedd copïau o'r argymhellion hyn, ynghyd â mapiau eglurhaol, ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio mewn mannau cyfleus yn yr etholaethau ac ar wefan y Comisiwn.

**Cynrychiolaethau a dderbyniwyd**

2. Derbyniwyd 1 gynrychiolaeth (gweler i isod) ynghylch ein hargymhellion dros dro yn ystod y cyfnod statudol un mis.

   i. Cefnogodd Cyngor Sir Powys yr argymhelliad.

3. Nodwyd gan y Comisiwn, am na chafwyd unrhyw gynrychiolaeth o'r fath a nodir yn adran 6 (2) Deddf Etholaethau Seneddol 1986, nad oedd gofyniad statudol i gynnal ymchwiliad lleol. At hynny, penderfynodd y Comisiwn, o dan yr holl amgylchiadau, na fyddent yn ymarfer eu disgresiwn o dan adran 6 (1) i gynnal ymchwiliad

**Argymhellion terfynol**

**4.** Ar ôl ystyried yn ofalus yr holl gynrychiolaethau a wnaed mewn ymateb i'w hargymhellion dros dro, roedd y Comisiwn yn fodlon mai'r argymhellion hynny oedd y ffordd orau o roi'r Rheolau ar waith. Yn unol â hynny, mae'r Comisiwn wedi cadarnhau eu hargymhellion dros dro, h.y.

   i. newid y ffin rhwng Merthyr Tydfil and Rhymney County Constituency ac Brecon and Radnorshire County Constituency i gydymffurfio â'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Sir Powys fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Merthyr Tudful a Phowys (Pontsticill) 2009; a
   ii. newid y ffin rhwng rhanbarth etholiadol Dwyrain De Cymru y Cynulliad a rhanbarth etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad fel ei fod yn

cydymffurfio â'r newid a argymhellir yn i. uchod a Gorchymyn Siroedd Wedi'u Cadw Powys a Morgannwg Ganol (Newid yn Ardaloedd) 2010.

5. Mae argymhellion terfynol y Comisiwn, a fydd yn cael eu cynnwys yn eu hadroddiad i'w gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar gyfer y ddwy etholaeth ganlynol (caiff etholaethau 2009 eu dangos mewn cromfachau):

**BRECON AND RADNORSHIRE COUNTY CONSTITUENCY** (53,354) adrannau etholiadol **Sir Powys**: Aber-craf, Bugeildy, Brwynllys, Llanfair-ym-Muallt, Bwlch, Crucywel, Cwm-twrch, Diserth a Thre-coed, Felin-fach, Y Clas-ar-wy, Gwernyfed, Y Gelli, Trefyclo, Llanafan Fawr, Llanbadarn Fawr, Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod, Gogledd Llandrindod, De Llandrindod, Llanelwedd, Llangatwg, Llan-gors, Llangynllo, Llangynidr, Llanwrtyd, Llanllŷr-yn-Rhos, Maes-car/Llywel, Nantmel, Pencraig, Llanandras, Rhaeadr Gwy, Llan-faes, St David Fewnol, St.John, St.Mary, Talgarth, Tal-y-bont ar Wysg, Tawe-Uchaf, Ynysgedwyn, Aberysgir, Ystradgynlais.

**MERTHYR TYDFIL AND RHYMNEY COUNTY CONSTITUENCY** (52,708) adrannau etholiadol **Sir Merthyr Tudful**: Bedlinog, Cyfarthfa, Dowlais, Y Gurnos, Ynysowen, Y Parc, Penydarren, Plymouth, Y Dref, Treharris a'r Faenor. Adrannau etholiadol **Sir Caerffili**: Cwm Darren, Moreia, Tredegar Newydd, Pontlotyn a Thwyn Carno.

## Cynrychiolaethau

6. Yn unol ag adran 5 Deddf 1986, nid oes gan y Comisiwn hawl i ystyried unrhyw gynrychiolaethau pellach mewn perthynas â'r argymhellion hyn.

## Gweithredu'r argymhellion

7. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol sydd â dyletswydd wedyn i osod adroddiad y Comisiwn gerbron y Senedd ynghyd â Gorchymyn drafft y Cyfrin Gyngor i roi argymhellion y Comisiwn ar waith gyda neu heb addasiadau. Os cynigir gwneud addasiadau, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd osod datganiad o resymau am yr addasiadau. Caiff Gorchymyn drafft y Cyfrin Gyngor ei gyflwyno i'r Senedd i'w gymeradwyo, ac ar ôl i hynny gael ei wneud gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor, ni ellir ei amau mewn unrhyw achosion cyfreithiol. Daw'r etholaethau newydd i rym yn yr etholiad cyffredinol nesaf yn dilyn gwneud Gorchymyn y Cyfrin Gyngor.

## Ymholiadau

8. I gael gwybodaeth bellach, cysylltwch â: Comisiwn Ffiniau i Gymru, Tŷ Caradog, 1 - 6 Plas Sant Andreas, Caerdydd CF10 3BE.

Ffôn: 029 2039 5031
Ffacs: 029 2039 5250
E-bost: comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk